

# amserbeibl

## Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



### Storiâu Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Actau 11: 19-30

### Stori 1 Paul (Saul) yn Antiochia

Aeth blynyddoedd heibio ers i Saul (oedd hefyd yn cael ei alw'n Paul) gwrdd â'r Arglwydd Iesu. Aeth yn ôl i'r ddinas lle cafodd ei eni.

**C** Ysgrifennwch enw'r ddinas gan ddefnyddio drych i weld y llythrennau'n iawn.

**SURAT**

Rhowch ddrych yma \_\_\_\_\_

1



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 11: 26

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

Yn y cyfamser, roedd mwy a mwy o bobl yn clywed y newyddion da am Iesu ac roedd eglwys Duw yn tyfu. Roedd rhai credinwyr wedi mynd i fyw i ddinas o'r enw Antiochia. Yno, roedden nhw'n gallu dweud y newyddion da wrth bobl nad oedd erioed wedi'i glywed. Daeth llawer o bobl i gredu yn Iesu Grist.

**C** Llanwch y bylchau i ddweud beth a ddigwyddodd.

Aeth rhai credinwyr i fyw yn **A** \_\_\_\_\_.

Buon nhw'n sôn wrth y bobl yno am yr **A** \_\_\_\_\_ **I** \_\_\_\_\_.

**C** \_\_\_\_\_ llawer o bobl ynddo.

6

Cyn hir, clywodd yr eglwys yn Jerwsalem am y pethau mawr oedd yn digwydd yn Antiochia. Roedd y credinwyr mor hapus fel y penderfynon nhw anfon rhywun yno ar unwaith i gael gwybod yn union beth oedd yn digwydd. Fe ddewiswn nhw ddyn o'r enw Barnabas.



Roedd Barnabas wrth ei fodd pan gyrhaeddodd i Antiochia. Roedd yn wir!  
Roedd yno lawer iawn o gredinwyr newydd. Gwnaeth Barnabas ei orau i  
ddysgu'r credinwyr a'u hannog i garu'r Arglwydd Iesu.

**C** Pwy wnaeth yr eglwys yn Jerwsalem ei anfon i Antiochia?  
Rhowch gylch o gwmpas yr ateb.

Steffan    Saul    Barnabas    Philip

3

Roedd Barnabas mor brysur yn Antiochia fel bod angen rhywun i'w helpu. Aeth i  
Darsus i chwilio am Saul a dod ag ef yn ôl i Antiochia i'w helpu.

**C** Pwy aeth Barnabas i chwilio amdano i'w helpu yn Antiochia?  
Rhowch gylch o gwmpas yr ateb.

Philip    Saul    Steffan    Ioan

3

Treuliodd Barnabas a Saul y flwyddyn nesaf yn Antiochia, yn dysgu'r credinwyr.  
Dyna pryd y cafodd y rhai oedd yn credu yn Iesu Grist eu galw'n 'Gristnogion'  
am y tro cyntaf.

Mae'r enw '**Cristion**' yn golygu rhywun sy'n **perthyn i Iesu Grist**.

**C** Sawl blwyddyn wnaethon nhw eu treulio yn Antiochia?

1 flwyddyn    10 mlynedd    1 mis    3 blynedd

3

Wedyn, gadawodd Barnabas a Saul Antiochia a mynd i Jerwsalem. Roedd  
Antiochia yn fan cychwyn pwysig i Saul. Yma y dechreuodd ei waith cenhadol – y  
gwaith yr oedd Duw wedi'i drefnu ar ei gyfer. Mae Duw'n dal i ddefnyddio pobl i  
helpu i sôn wrth eraill am y newyddion da.

**C** Chwiliwch am y pedwar enw hyn yn y Chwilair. Tynnwch linell  
trwy'r geiriau. Maen nhw'n rhedeg i lawr ac ar draws.

Y	O	C	R	A	B	E	T	I
S	A	U	L	R	A	C	A	R
P	A	D	E	B	R	R	R	A
A	P	R	M	A	N	A	S	N
P	R	E	A	R	A	G	U	O
E	O	R	C	O	B	E	S	F
J	E	R	W	S	A	L	E	M
A	N	A	N	A	S	I	S	A

Jerwsalem

Tarsus

Saul

Barnabas

4



DARLLENWCH  
Actau 13: 1-12




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Mathew 28: 19

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

## Stori 2 Paul (Saul) yng Nghyprus

Un diwrnod, roedd Cristnogion Antiochia wedi dod at ei gilydd. Roedd Barnabas a Saul gyda nhw. Dywedodd yr Ysbryd Glân wrth yr arweinwyr bod Barnabas a Saul i fod i wneud gwaith arbennig i Dduw. Ar ôl gweddïo am y peth, cychwynnodd Barnabas, Saul a Ioan Marc, nai ifanc Barnabas, i Gyprus mewn cwch.


**C** Rhowch enwau'r tri oedd yn y cwch a'r man lle'r oedden nhw'n mynd.



8


Roedd y dynion hyn yn ufuddhau i Iesu Grist a ddywedodd "Ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd." Roedd Iesu am i'r newyddion da amdano gyrraedd pob gwlad. Roedd y dynion hyn yn ei gario i ynys dros y môr.

**C** Llanwch y bylchau yn y swigen siarad i'ch atgoffa am un o orchmynion Iesu.



6

Ar ôl cyrraedd, buont yn teithio o gwmpas yr ynys yn pregethu'r newyddion da.



Mewn lle o'r enw Paffos, fe gwrddon nhw â dewin oedd yn gweithio i llywodraethwr Cyprus. Pan glywodd y llywodraethwr am Barnabas a Saul, roedd yn awyddus i gwrdd â nhw am ei fod am glywed Gair Duw. Gwrandawodd y llywodraethwr yn ofalus ond ceisiodd Elymas, y dewin, ei atal rhag credu.

Roedd Saul yn gwybod mai gwneud gwaith y diafol roedd y dewin. Syllodd Saul arno, yn llawn o nerth yr Ysbryd Glân, a dweud yn glir ei fod yn gwneud

peth drwg ac y byddai'r Arglwydd yn ei wneud yn ddall. Cyn gynted ag y siaradodd Saul, aeth Elymas yn ddall! Roedd yn ymbalfalu gan chwilio am rywun i'w arwain.

**C** Tynnwch linell rhwng yr enwau a'r hyn a wnaethon nhw.

Elymas, dewin  
Y llywodraethwr

eisiau gwrando ar Air Duw.  
ddim eisiau credu.

4

**C** Beth ddigwyddodd i Elymas? Tynnwch linell trwy'r atebion anghywir.

Roedd yn methu clywed.  
Roedd yn methu cerdded.  
Roedd yn methu gweld.

2

O hyn ymlaen, mae Saul yn cael ei alw'n Paul.

Roedd Paul yn gallu gwneud y wyrth hon gan fod Duw'n rhoi ei nerth iddo. Roedd y llywodraethwr wedi gweld pa mor fawr oedd nerth Duw.

Roedd popeth a welodd ac a glywodd yn ei helpu i wneud y dewis cywir – credu yn yr Arglwydd Iesu.





DARLLENWCH  
Actau 16: 6-15




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 2: 21

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

### Stori 3 Paul yn cwrdd â Lydia

Ydych chi wedi bod ar eich gwyliau mewn gwlad ddieithr? Ydych chi wedi croesi'r ffin rhwng dwy wlad? Teithiodd Paul a dau ffrind iddo, Silas a Timotheus, yn bell iawn gan fynd o wlad i wlad. Gan eu bod nhw'n gwneud gwaith Duw, roedd yr Ysbryd Glân yn dangos iddyn nhw lle i fynd. Bobman yr oedden nhw'n mynd, roedd angen sôn wrth lawer o bobl am Iesu Grist.



#### C Pwy oedd dau ffrind Paul?

S \_ \_ \_ \_ \_ a T \_ \_ \_ \_ \_

Un diwrnod, daethon nhw i dref ar lan y môr. Cafodd Paul fath o freuddwyd arbennig. Roedd dyn o Macedonia (Gwlad Groeg) yn gofyn i Paul fynd draw i helpu'r bobl yno. Roedd Paul yn gwybod mai ffordd Duw o ddweud wrtho lle i fynd nesaf oedd hyn.

#### C Llanwch y bylchau i gael gweld beth ddywedodd y dyn o Facedonia wrth Paul.

T \_ \_ \_ \_ draw i'n  
h \_ \_ \_ \_ ni!


Daethon nhw o hyd i long oedd yn mynd i Facedonia a chyrraedd dinas o'r enw Philipi.

Ar y Saboth, aeth Paul a'i ffrindiau allan o'r ddinas i lan afon. Roedd rhyw fenywod wedi dod yno i weddio.



Lydia oedd enw un ohonyn nhw. Roedd yn credu yn Nuw ers amser hir ond doedd hi ddim wedi clywed bod Mab Duw, Iesu Grist, wedi dod o'r Nefoedd ac wedi marw ar y groes fel y gallai hi gael ei hachub oddi wrth ei phechodau.


**C Llanwch y geiriau ar y Grid Geiriau.**



1. Daeth Paul i ddinas fawr \_\_\_\_\_.
2. Ar y \_\_\_\_\_ Saboth, aethon nhw allan o'r ddinas.
3. Roedd Lydia'n addoli \_\_\_\_\_.
4. Roedd Lydia'n dod o'r ddinas hon.
5. Gwnaeth yr Arglwydd hyn i galon Lydia.

10

Gwrandawodd Lydia'n ofalus ar bopeth a ddywedodd Paul. Er mai dyma'r tro cyntaf iddi glywed y neges, roedd Lydia'n gwybod yn ei chalon ei bod yn wir. Y diwrnod hwnnw, daeth i gredu yn Iesu Grist. Roedd hi mor falch bod Paul wedi dod i'w dinas hi.



Daeth teulu Lydia'n Gristnogion hefyd. Ar ôl i Lydia a'i theulu gael eu bedyddio, gwahoddodd hi Paul a'i ffrindiau i fynd i aros yn ei thŷ hi.

4

**C Rhowch ✓ neu X ar ôl y brawddegau hyn.**

- Daeth teulu Lydia'n Gristnogion hefyd. ....
- Gwahoddodd Lydia Paul a'i ffrindiau i aros yn ei chartref. ....

Pan aeth Paul i Wlad Groeg, daeth â'r newyddion da i Ewrop am y tro cyntaf!

Mae'r stori yma'n ein hatgoffa bod modd achub pob math o bobl. Does dim ots lle maent yn byw na phwy ydyn nhw! Mae hynny'n golygu y gallwch chi fod yn Gristion hefyd!



DARLLENWCH  
Actau 16: 16-34




ADNOD  
ALLWEDDOL  
Actau 16: 31

Gofynnwch i rywun  
eich helpu i ddod  
o hyd i'r adnod.

## Stori 4 Paul a Silas yn y carchar

Tybed ydych chi wedi mynd i drwbwl erioed a chithau'n gwneud eich gorau i helpu rhywun? Dyna ddigwyddodd i Paul a Silas.

Un diwrnod yn Philipi, fe wnaethon nhw helpu caethferch ond roedd ei pherchnogion hi'n gas iawn iddyn nhw. Dyma nhw'n llusgo Paul a Silas i'r farchnad ac yn dweud celwydd amdany'n nhw.



Ar ôl eu curo'n gas, cawson nhw eu taflu i'r carchar. Gadawodd ceidwad y carchar nhw yno, mewn cadwynau, a'u traed wedi'u rhwymo yn y cyffion.

Pe bai hynny'n digwydd i chi, mae'n siwr na fyddech yn teimlo'n llawen iawn! Ond tua hanner nos, roedd y carcharorion eraill yn clywed Paul a Silas yn gweddio ac yn canu emynau i Dduw. Er bod eu cefnau'n brifo ar ôl iddyn nhw gael eu curo â ffyn, roedden nhw'n dal yn gallu moli Duw.

8

### **C** Tynnwch linell rhwng dechrau pob brawddeg a'i diwedd. (Defnyddiwch liw gwahanol ar gyfer pob un!)

Helpodd Paul a Silas  
Cawson nhw  
Wedyn cawson nhw'u taflu i  
Tua hanner nos

eu curo'n gas.  
roedden nhw'n canu.  
gaethferch.  
garchar.



Yn sydyn, clywson nhw sŵn. Roedd y carchar yn ysgwyd – agorodd y drysau a syrthiodd eu cadwyni oddi arny'n nhw. Roedden nhw ynghanol daeargryn!

Deffrodd ceidwad y carchar, neidio ar ei draed a gweld bod y drysau i gyda wedi agor. Dyna'r peth gwaethaf a allai ddigwydd – roedd yn meddwl bod y carcharorion i gyd wedi dianc ac mai fe fyddai'n cael y bai! Roedd e mor bryderus nes iddo estyn ei gleddyf gan fwriadu ei ladd ei hunan.

“Paid â gwneud niwed i ti dy hunan,” gwaeddodd Paul, “rŷn ni i gyd yma.” Galwodd ceidwad y carchar am olau a rhuthrodd i mewn at Paul a Silas. “Beth sy raid i mi ei wneud i gael fy achub?” gofynnodd. Nid cael ei achub rhag y daeargryn roedd e'n ei feddwl ond roedd wedi sylweddoli ei fod yn bechadur a bod angen ei achub rhag y gosb am ei bechod. Atebodd Paul a Silas, “Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist ac fe gei dy achub.”

**C** Beth oedd ateb Paul a Silas pan ofynnodd ceidwad y carchar beth i'w wneud i gael ei achub? Tynnwch linell trwy'r ddau ateb anghywir:-



**Gweddio ar Dduw dair gwaith y dydd.  
Credw yn yr Arglwydd Iesu Grist.  
Mynd i'r synagog.**

Esboniodd Paul a Silas wrth geidwad y carchar a'i deulu bod Iesu wedi marw ar y groes yn eu lle. Cyn hir, roedden nhw i gyd yn credu yn Iesu. Golchodd ceidwad y carchar friwiau Paul a Silas. Yna, aeth â nhw adref a rhoi pryd o fwyd iddyn nhw. Yna, cafodd pawb yn y teulu eu bedyddio.



4

**C** Mae'r stori'n sôn am y pedwar peth hyn. Llanwch y bylchau yn y grid.



8

Roedd hon yn noson hapus iawn i'r teulu – noson y bydden nhw'n ei chofio am weddill eu bywydau. Ydych chi wedi credu yn yr Arglwydd Iesu? Ydych chi wedi cael eich achub?

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org). Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120